# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 1 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Sawl cynnig ar gyfer ad-drefnu ysgolion sy’n disgwyl cymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd a faint o amser, ar gyfartaledd, y mae’r Llywodraeth yn ei gymryd ar hyn o bryd i wneud penderfyniadau. (WAQ55697)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Ar hyn o bryd mae 19 o gynigion trefniadaeth ysgolion yn disgwyl penderfyniad gan weinidog. Gall gweinidogion gymeradwyo cynnig, cymeradwyo cynnig gydag addasiadau, gwrthod cynnig neu roi cymeradwyaeth amodol, a ddaw yn benderfyniad terfynol pan gaiff yr amodau eu cyflawni. Ar gyfartaledd, cafodd y 10 benderfyniad diwethaf (sy'n dyddio'n ôl i fis Mehefin 2009) eu cyhoeddi 32 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion.
Dylid nodi bod y cyfnod ar gyfer gwrthwynebu cynigion trefniadaeth ysgolion yn parhau am ddeufis o'r dyddiad cyhoeddi ac yna bydd gan awdurdodau lleol fis arall i anfon copïau o'r gwrthwynebiadau ymlaen i Weinidogion Cymru ynghyd â'u sylwadau ar y gwrthwynebiadau hyn.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Sawl swydd newydd sydd wedi’i chreu yn y 'diwydiant gwyrdd’ er 2007 ac ym mha sectorau o’r diwydiant y crëwyd y swyddi hyn. (WAQ55696)

***Rhoddwyd ateb ar 15 Mawrth 2010***

Er y gall fod yn bosibl canfod cyfanswm y swyddi ym maes Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol Carbon Isel (LCEGS) yng Nghymru, drwy ddadansoddi'r sectorau perthnasol, mae mesur swyddi gwyrdd yn yr economi ehangach yng Nghymru yn fwy anodd gan nad oes gennym ddata ystadegol ar gael i'w ddefnyddio.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasoi*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa gamau sydd wedi’u cymryd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i adarnhau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy’n seiliedig ar y gweithgareddau a gyflawnir ers tro rhwng gogledd-orllewin Cymru a Lesotho fel rhan o weithgareddau Dolen Cymru. (WAQ55694)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Deallaf fod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gwneud cynnydd ardderchog tuag at ddatblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth â Lesotho. Awgrymaf y dylech gysylltu â'r BILl yn uniongyrchol am adroddiad cynnydd manylach.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Yn ôl pob un o Fyrddau Iechyd Lleol Cymru, sawl tystysgrif Peidio â Dadebru a gyflwynwyd ymhob un o’r 5 mlynedd diwethaf a beth oedd oedran y cleifion cysylltiedig a'r rhesymau dros gyflwyno'r tystysgrifau. (WAQ55695)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw’n ariannu rhagor o heddlu yn ardal y difa moch daear yng ngogledd Sir Benfro am gyfnod y difa ac, os ydyw, faint fydd hyn yn ei gostio, a pha ddarpariaeth ychwanegol sy'n cael ei hariannu. (WAQ55693)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Rydym am sicrhau hyder cymunedol drwy roi sicrwydd parhaus i'n cymunedau o fewn yr ardal beilot a'r tu allan iddi cyn, yn ystod ac ar ôl gweithredu'r cynllun difa. I'r diben hwn rydym wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu fframwaith sy'n egluro sut y byddwn yn cydweithio yn hyn o beth, ynghyd â rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ychwanegu at y 'tîm plismona yn y gymdogaeth' yn yr ardal i weithio gyda chymunedau i ddarparu'r sicrwydd hwn ac i weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer pobl. Byddwn yn adolygu hyn yn barhaus yn ystod y cynllun peilot.

Nid ydym yn bwriadu datgelu gwybodaeth mewn perthynas â thactegau'r heddlu, staffio, hyfforddiant na'r cyllidebau sydd ar waith. Mae'r rhain yn faterion plismona gweithredol sy'n rhan o gyfrifoldebau cyfansoddiadol y Prif Gwnstabl.

Amcangyfrifir mai £9,427,000 fydd cost gweithredu cynllun difa rhagweithiol dros bum mlynedd yn olynol o fewn yr ardal beilot. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys yn y Cynllun Adennill Costau.